OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 401

# Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021

## RHAN 2

## CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Cadw'n gaeth o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; cymhwyso Deddf 2018*

**Plentyn neu berson ifanc a chanddo gynllun datblygu unigol cyn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty**

**22.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) pan fo plentyn neu berson ifanc yn ddarostyngedig i orchymyn cadw,

(b) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983, ac

(c) pan oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal neu ei gadw ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc o dan Ran 2 o Ddeddf 2018 yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc gynnal y cynllun datblygu unigol; ac mae'r cynllun i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 14 o Ddeddf 2018 at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf honno, ac unrhyw ddarpariaeth a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag adran 19(4) neu 40(7) o Ddeddf 2018 yn cael ei thrin fel pe bai'n cael ei disgrifio yn unol ag adran 14(6).

(3) Ond nid yw'r ddyletswydd i gynnal y cynllun ym mharagraff (2) yn gymwys mewn perthynas â chynllun a oedd yn cael ei gynnal neu ei gadw gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ac eithrio'r awdurdod lleol perthnasol oni thynnir sylw'r awdurdod lleol perthnasol at y ffaith bod y cynllun yn cael ei gynnal neu ei gadw.

(4) Mae Deddf 2018 a darpariaethau eraill o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno (gan gynnwys y Rheoliadau hyn) yn gymwys gyda'r addasiadau y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc tra bo'r plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw yn ddarostyngedig i orchymyn cadw ac yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf 1983.

(5) Pan oedd y cynllun, yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty, yn cael ei gadw o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol—

(a) rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc ei fod wedi dod yn gyfrifol am gynnal y cynllun,

(b) os yw'r cynllun ar gyfer plentyn, roi gwybod i riant y plentyn, ac

(c) adolygu'r cynllun,

(ar gyfer pan oedd y cynllun yn cael ei gynnal gan gorff arall yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'n gaeth mewn ysbyty, gweler adrannau 22(2) a 23 o Ddeddf 2018 fel y'u cymhwysir gan y rheoliad hwn).

(6) Rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol gwblhau'r adolygiad o'r cynllun yn brydlon ac mewn unrhyw achos o fewn y cyfnod o 7 wythnos sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty.

(7) Nid oes angen i'r awdurdod lleol perthnasol gwblhau'r adolygiad o fewn y cyfnod hwnnw o 7 wythnos os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod.

(8) At ddibenion paragraff (6), mae adolygiad wedi ei gwblhau pan yw'r awdurdod lleol perthnasol yn rhoi, o dan Ran 2 o Ddeddf 2018, unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) copi o'r cynllun datblygu unigol diwygiedig;

(b) hysbysiad o benderfyniad na ddylid diwygio'r cynllun;

(c) hysbysiad o benderfyniad nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol mwyach;

(d) os yw'r person yn berson ifanc, hysbysiad o benderfyniad nad oes angen cynnal y cynllun mwyach i ddiwallu anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant.